

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 26(v4)

---

- 1 Nodi 50 mlynedd ers trychineb Aberfan**  
(10 munud)
- 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**  
(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

- 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**  
(10 munud)

[Gweld y Cwestiynau](#)

- 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor gan gynnwys Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Phlant ar eu Pen eu Hunain**  
(30 munud)



## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

### NDM6124 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol Dai Lloyd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

### NDM6125 [Elin Jones \(Ceredigion\)](#):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3 a 17.13(ii), yn ethol;

1. Llyr Gruffydd (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a
2. Adam Price (Plaid Cymru) fel eilydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

### NDM6121 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraeth leol dda wrth gyfrannu at yr economi, y gwasanaeth iechyd a chanlyniadau addysgol lleol.
2. Yn gresynu bod gormod o wasanaethau cyhoeddus wedi bod yn "wan ac anghyson", ac wedi'u nodweddu gan "ddiffyg uchelgais", fel y mae Comisiwn Williams yn ei ddisgrifio.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
  - (a) cynyddu atebolrwydd llywodraeth leol drwy ddiwygio trefniadau etholiadol a gostwng yr oedran pleidleisio i 16;

(b) archwilio'r ffordd y gellir diwygio cyllid llywodraeth leol i sicrhau system decach a mwy cynaliadwy;

(c) cyflwyno cyfres o gyfraddau, telerau ac amodau cyflog a gaiff eu penderfynu'n genedlaethol, i reoli cyflogau swyddogion uwch a phrif swyddogion drwy fframwaith cenedlaethol; a

(d) sefydlu awdurdodau cyfunol rhanbarthol fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol ar gyfer gwella cydweithrediad rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol presennol.

### 'Adroddiad Comisiwn Williams'

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

#### **Gwelliant 1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) archwilio'r ffordd y caiff llywodraeth leol ei chyllido, er mwyn sicrhau bod awdurdodau gwledig yn cael cyllid teg sy'n gyfartal i bob cymuned ledled Cymru; a

(b) gwella tryloywder o ran cyllidebu uwch staff awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cyflogau swyddogion gweithredol yn gynaliadwy ac yn gosteffeithiol i dalwyr y dreth gyngor, a heb fod ar draul darparu gwasanaethau lleol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

#### **Gwelliant 2. Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) cynyddu atebolrwydd llywodraeth leol drwy'r trefniadau etholiadol a gostwng yr oedran pleidleisio i 16;

(b) archwilio'r ffordd y gellir diwygio cyllid llywodraeth leol i sicrhau system decach a mwy cynaliadwy;

(c) parhau i archwilio'r achos o blaid cyflwyno cyfres o gyfraddau, telerau ac amodau cyflog a gaiff eu penderfynu'n genedlaethol, i reoli cyflogau uwchswyddogion a phrif swyddogion drwy fframwaith cenedlaethol; a

(d) sefydlu trefniadau rhanbarthol fel rhan o ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol er mwyn gwella cydweithredu rhanbarthol rhwng yr awdurdodau lleol presennol.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

NDM6120

[Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#)

[Neil Hamilton \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#)

[Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

[Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn penderfynu sefydlu senedd ieuenctid i Gymru.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Fil Cymru Llywodraeth y DU

(60 munud)

NDM6119 [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Fil Cymru Llywodraeth y DU, a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2016.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

NDM6118 [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Gwneud lobïo yng Nghymru yn fwy agored.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Tachwedd  
2016